OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1306 (Cy.117)

# Y GWASANAETHAU IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diddymu) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *21 Mai 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Hydref 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 18 a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a pharagraff 28(1) o Atodlen 3 iddi(**1**) ac wedi cwblhau'r ymgynghoriad a ragnodir o dan baragraff 28(3) o'r Atodlen i'r Ddeddf honno(**2**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diddymu) (Cymru) 2009 a daw i rym ar 1 Hydref 2009.

### Diddymu Ymddiriedolaethau'r GIG

**2.** Mae Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a restrir yng ngholofn 1 i'r Atodlen yn cael eu diddymu ac mae'r Gorchmynion cyfatebol a restrir yng ngholofn 2 i'r Atodlen yn cael eu dirymu.

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

21 Mai 2009

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ymgynghori ar Sefydlu a Diddymu) 1996 (O.S. 1996/653) sy'n dal i gael ei effaith yn rhinwedd paragraff 1(2) o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006.

## YR ATODLEN

Erthygl 2

| *Ymddiriedolaeth GIG* | *Gorchymyn Ymddiriedolaeth GIG* |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg | Gorchymyn Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg (Sefydlu) 2008 (O.S. 2008/716 (Cy.75)) |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cwm Taf | Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cwm Taf (Sefydlu) 2008 (O.S. 2008/717 (Cy.76)) |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro | Gorchymyn Sefydlu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro 1999 (O.S. 1999/3451 (Cy.49)) |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Gwent | Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Gwent (Sefydlu) (O.S. 1998/3321) |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Hywel Dda | Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Hywel Dda (O.S. 2008/712 (Cy.73)) |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru | Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwladol Gogledd Cymru (Sefydlu) 2008 (O.S. 2008/1648 (Cy.160)) |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Orllewin Cymru | Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Orllewin Cymru (Sefydlu) (O.S. 1998/3314) |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer diddymu saith Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru ar 1 Hydref 2009 ac ar gyfer dirymu'r gorchmynion sefydlu perthnasol.